## P-05-854 Gwneud hyfforddiant Anabledd Dysgu yn orfodol ar gyfer staff ysbytai

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan The Paul Ridd Foundation, ar ôl casglu 5,654 o lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb

Paul Ridd oedd ein brawd. Roedd ganddo anableddau dysgu difrifol a bu farw yn Ysbyty Treforys yn 2009. Dywedodd adroddiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus fod yr amgylchiadau'n arwain at farwolaeth Paul, sef esgeulustod, diffyg hyfforddiant ac anwybodaeth yn ffactorau cyfrannol a arweiniodd at farwolaeth Paul. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn cael hyfforddiant gorfodol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd enfawr sy'n wynebu pobl ag awtistiaeth ac anabledd dysgu.

Nid yw 1 o bob 4 gweithiwr gofal iechyd proffesiynol erioed wedi cael hyfforddiant ar anabledd dysgu neu awtistiaeth. Mae hyn yn annerbyniol. Hoffai dwy ran o dair gael mwy o hyfforddiant, ac mae 1 o bob 3 yn credu bod diffyg arweinyddiaeth y llywodraeth yn cyfrannu at broblemau marwolaethau y gellir eu hosgoi (ystadegau o'r arolwg a gynhaliwyd gan YouGov ar gyfer Mencap: https://www.mencap.org.uk/press-release/concerns-over-lack-clinical-training-causing-avoidable-learning-disability-deaths).

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru